Document: **JB-POLICY-010**	**POLISI IAITH GYMRAEG**

POLISI IAITH GYMRAEG

Mae Jones Bros Ruthin Co Ltd[1] wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cyfartal i'r graddau y gallwn yn rhesymol wneud hynny. Gwnawn gynnydd cyson tuag at wireddu'r uchelgais hwn ac mae'r Polisi yma'n nodi ein sefyllfa bresennol ynglyn a defnyddio'r iaith Gymraeg.

Cyfyngwyd ymrwymiadau'r polisi hwn i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru, neu rai a ddarperir ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Fe'u cyfyngwyd hefyd i wasanaethau y mae gennym reolaeth neu ddylanwad drostynt.

Bob troy gellir gwneud hynny'n rhesymol, byddwn yn cynhyrchu deunydd cyhoeddus yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

- Arwyddion parhaol ac arwyddion dros dro
- Gwybodaeth ar ein gwefan
- Hysbysebion recriwtio
- Cyhoeddiadau
- Deunydd marchnata ac arddangos

Os yw'n briodol ac yn bosibl, byddwn yn cyfathrebu gyda'n cysylltiadau busnes yn y Gymraeg. Gwyddom beth yw dewis iaith ein cysylltiadau busnes rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o'n staff yn ddwyieithog ac rydym yn eu hannog i gynnig y gwasanaeth hwn i bawb y cysylltwn a nhw. Mae hyn yn cynnwys:

- Sgyrsiau wyneb wrth wyneb
- Sgyrsiau ffôn
- Gohebiaeth bapur ac electronig

Ceisiwn ddarparu siaradwyr Cymraeg lle bynnag y cynhaliwn cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru. Fel darparwr hyfforddiant, mae Jones Bros Ruthin Co Ltd yn asesu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr am swyddi o fewn y Ganolfan Hyfforddi. Mae'r rhan fwyaf o staff ein Canolfan Hyfforddi yn ddwyieithog ac yn gallu dargludo hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddysgwr sy'n dymuno hynny.

Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle fel sy'n briodol. Os nid yw pawb yn y cyfarfod cyferfed yn medru siarad Cymraeg, defnyddir y Saesneg fel bod pawb yn deall yr hyn a ddywedir.

Mae ein cyhoeddiadau mewnol yn bennaf yn y Saesneg. Os gofynnir amdanynt yn y Gymraeg, ceisiwn eu darparu bob amser y mae'n rhesymol gwneud hynny.

Rydym yn annog pob contractwr neu drydydd parti sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ar ein rhan i gydymffurfio a'r polisi hwn.

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob blwyddyn a chaiff yr holl staff wybod am unrhyw newidiadau.

Ruth James
Cyfarwyddwr
28 Ebrill 2020

[1] Jones Bros Ruthin Co ltd yw'r cwmni daliannol a Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co Ltd a Cambrian Services Limited yw'r is-gwmnïau